**WHC/2022/(003)**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi: Hydref 2022**

**STATWS: CYDYMFFURFIO / GWEITHREDU / GWYBODAETH**

**CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH**

**Teitl:**
*Canllawiau ar gyfer darparu cynhyrchion cyfyngu ymataliaeth ar gyfer oedolion yng Nghymru 2022*

**Dyddiad adolygu : Hydref 2025**

**I'w weithredu gan:**
Cadeiryddion y Byrddau Iechyd Lleol
Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd Lleol
Ysgrifenyddion Bwrdd y Byrddau Iechyd Lleol
Cyfarwyddwyr Meddygol y Byrddau Iechyd Lleol
Cyfarwyddwyr Nyrsio y Byrddau Iechyd Lleol

**Angen gweithredu erbyn : Hydref 2022**
Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Arweinwyr Proffesiynol a Pholisi
Tîm Gweithrediadau'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Tîm Cyfathrebu'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Tîm Digidol yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Tîm Cyflawni a Chyllid yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cydwasanaethau GIG Cymru

**Anfonir gan: Sue Tranka, y Prif Swyddog Nyrsio**

**Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru :**
Richard Desir, Swyddfa’r Prif Swyddog Nyrsio OCNOmailbox@llyw.cymru

**Dogfen(nau) amgaeedig :**

1. Mae’r cylchlythyr diweddaraf hwn yn rhoi canllawiau i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn ymwneud â darparu cynhyrchion padiau cyfyngu ymataliaeth ar gyfer oedolion.

2. Mae problemau yn ymwneud â’r bledren a’r coluddyn yn gyffredin ac mae’n bosibl eu trin yn y rhan fwyaf o achosion. Ond nid oes dealltwriaeth digon da o’r problemau ac yn aml iawn nid ydynt yn cael digon o flaenoriaeth o fewn y ddarpariaeth iechyd a gofal yng Nghymru.

3. Mae’r canllawiau diweddaraf hyn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes i atal amrywiad ac anghysondeb o ran darparu cynhyrchion padiau cyfyngu ymataliaeth ar draws Cymru.

4. Mae’r canllawiau yn rhagdybio y cynhaliwyd asesiad clinigol a thriniaeth gyntaf, a bod gan y claf anghenion clinigol am gynhyrchion cyfyngu ymataliaeth. Fodd bynnag, mae eithriadau ar gyfer unigolion sydd â disgwyliad oes cyfyngedig neu sydd wedi cael salwch acíwt yn annisgwyl. Yn yr achosion hyn gellir rhoi padiau cyfyngu ymataliaeth ar unwaith.

5. Mae asesiad claf unigol yn weithgarwch sylfaenol sy’n arwain arferion gorau ar gyfer darparu cynhyrchion padiau cyfyngu ymataliaeth i oedolion yng Nghymru. Mae hyn yn hanfodol cyn penderfynu ar ddewisiadau rheoli ac ystyried defnyddio cynhyrchion cyfyngu ymataliaeth.

6. Yng Nghymru, does dim gofyniad statudol i ddarparu cynhyrchion padiau cyfyngu ymataliaeth, felly mae pob Bwrdd Iechyd wedi datblygu eu polisïau a’u canllawiau eu hunain. O ganlyniad, mae’r ddogfen gysylltiedig yn ceisio amlinellu’r canllawiau cenedlaethol i atal amrywiad a lleihau anghysondeb.

7. Gall camweithrediad y bledren a’r coluddyn effeithio ar unrhyw berson ar unrhyw adeg yn eu bywyd. Heb ei drin, gall y camweithrediad arwain at ganlyniadau corfforol a seicolegol posibl a all effeithio ar y defnydd o wasanaethau iechyd eraill e.e. codymau, problemau croen, problemau iechyd meddwl ac ansawdd bywyd yn gyffredinol.

8. Mae’r ddogfen gysylltiedig ‘Canllawiau ar gyfer darparu cynhyrchion cyfyngu ymataliaeth i oedolion yng Nghymru – Dogfen Gonsensws 2022’ yn ei gwneud yn ofynnol i bob oedolyn sy’n cael problemau anymataliaeth wrinol neu ysgarthol gael cynnig asesiad cynhwysfawr a mynediad at wasanaeth teg.

9. Dylai’r ddogfen gonsensws Plant a Phobl Ifanc (Bladder and Bowel UK, 2021) a’r ddogfen hon fod yn sail i drosglwyddiad gofal plant/pobl ifanc i wasanaethau ymataliaeth oedolion.

10. Cafodd y ddogfen gysylltiedig ‘Canllawiau ar gyfer darparu cynhyrchion cyfyngu ymataliaeth i oedolion’ ei chyhoeddi i ddechrau yn 2016 (diwygiwyd 2021) ar gyfer cyrff GIG Lloegr ac mae bellach wedi’i haddasu ar gyfer ei defnyddio yn GIG Cymru gan Fforwm Ymataliaeth Cymru Gyfan i ddiwallu anghenion gwasanaethau/unigolion yng Nghymru